

Hysbysiad o Gynnig

GORCHYMYN (FFORDD ELDON, SOUGHTON) (GWAHARDD GYRRU) CYNGOR SIR Y FFLINT 2022

Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar xfed 7 Mehefin 2022 o dan Adran 1 (1) (d) ac (f) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac o dan bob grym galluogi arall a fydd yn:-

- 1) Gwahardd unrhyw gerbyd rhag mynd i mewn neu allan o Ffordd Eldon, Soughton, ar ei chyffordd de-ddwyreiniol â Vownog Newydd.

At ddibenion y gorchymyn hwn, bydd 'Ffordd Eldon' yn golygu'r ffordd wasanaeth sydd rhwng Vownog Newydd a Ffordd Eldon, cyfagos i Lavender View.

Pe byddech yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a fydd yn dod i rym ar yr 10fed Mehefin 2022, ynghyd â chynllun sy'n dangos hyd y ffordd y mae'r Gorchymyn yn ymwneud â hi a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn, fe'ch cynghorir i chi eu gweld ar ein gwefan yn www.Flintshire.gov.uk> Preswlydd> Ffyrdd, Strydoedd a Theithio> Gorchymynion Rheoleiddio Traffig neu gallwch ofyn am gopi o y dogfennau trwy e-bostio Streetscene@flintshire.gov.uk neu ffonio 01352701234.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw un o'i darpariaethau ar sail nad yw neu ydynt o fewn pwerau'r Deddfau, neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Deddfau neu unrhyw offeryn a wnaed o dan y Deddfau, wneud cais i'r Uchel Lys cyn pen chwe wythnos ar ôl dyddiad y Gorchymyn.

Dyddiedig y 10 fed diwrnod o Mehefin 2022



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF.

**GORCHYMYN
(FFORDD ELDON, SYCHDYN)
(GWAHARDD GYRRU)
CYNGOR SIR Y FFLINT 2022**

**Katie Wilby,
Prif Swyddog
(Gwasanaethau Stryd a Chludiant)
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF**



GORCHYMYN
(FFORDD ELDON, SYCHDYN)
(GWAHARDD GYRRU)
CYNGOR SIR Y FFLINT 2022

Mae Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 1 (1) (d) ac (f) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984"), fel y'i diwygiwyd, a'r holl bwerau galluogi eraill a roddwyd iddo, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. At ddibenion y gorchymyn hwn bydd Ffordd Eldon yn cyfeirio ar y ffordd wasanaeth rhwng Vownog Newydd a Ffordd Eldon wrth ymyl Lavender View.
2. Ni fydd unrhyw unigolyn yn achosi nac yn gadael i unrhyw gerbyd, ac eithrio beic pedalau, i fynd i mewn nac allan o Ffordd Eldon yn y gyffordd gyda Vownog Newydd i'r de ddwyrain.
3. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a roddir gan unrhyw Reoliad a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac nid yn rhanddirymiad iddynt.
4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei bod yn berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.
5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mehefin 2022 ac fe'i hadnabyddir fel Gorchymyn (Ffordd Eldon, Sychdyn) (Gwahardd Gyrru) Cyngor Sir y Fflint 2022.

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN)
CYNGOR SIR Y FFLINT)
yn y fan hon)
ar y 7 diwrnod hwn o Mehefin 2022)
ym mhresenoldeb:-)




Y CADEIRYDD

Mared Eastwood

~~RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL /~~

PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU

A handwritten signature in black ink, consisting of several loops and a long horizontal stroke ending in a small arrowhead.



Gwahardd Cerbydau Modur ar gyffordd y de,
gyda Vownog Newydd.

Prohibition of Motor vehicles at the south
easterly junction, with Vownog Newydd.

Ffordd Eldon Soughton
Prohibition of Motor Vehicles
(Sheet 1 of 1)

CONSTRUCTION	
AMENDMENTS:	DATE

DRAWN BY:
NGW

CHECKED BY:
AS

SCALE:
1: A1S @ A3

MAT. GRID REF:
324045
366705

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. Crown Copyright. All rights reserved. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted, in any form or by any means, electronic, mechanical, photocopying, recording, or by any information storage or retrieval system, without the prior written permission of Ordnance Survey. Licence number: 100023386; First Issue County Council, 2013.

Sir y Ffint Flintshire
COUNTY COUNCIL

County Hall, Mold, CH7 6NF
Prif Swyddog (Chief Executive) Stryd y Thirlidwrth, Neuadd y Str. Yr Wyddgrug, CH7 6NF

Streetscene

**GORCHYMYN
(FFORDD ELDON, SYCHDYN)
(GWAHARDD GYRRU)
CYNGOR SIR Y FFLINT 20-**

DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN

Mae Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu mabwysiadu darn o ffordd a elwir yn Ffordd Eldon yn Sychdyn. Mae Ffordd Eldon yn rhan fer o ffordd rhwng Vownog Newydd a Ffordd Eldon wrth ymyl Lavender View.


Er mwyn cadw natur bresennol y llwybr, cynigir cyflwyno cyfyngiad ar yrru ar Ffordd Eldon wrth ei chyffordd â Vownog Newydd, gan wneud Ffordd Eldon yn ffordd bengaead. Bydd y gorchymyn arfaethedig yn atal cerbydau modur rhag defnyddio'r ffordd ond bydd modd i gerddwyr a beicwyr ei defnyddio.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.


Dyddiedig y 7fed diwrnod o Fai 2021



Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF



SOUGHTON
SYCHDYN



Gwahardd Cerbydau Modur ar gyffordd y de,
gyda Vownog Newydd.

Prohibition of Motor vehicles at the south
easterly junction, with Vownog Newydd.



Steve Jones
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NF

Streetscene

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386. Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY:
NGW
CHECKED BY:
AS
SCALE:
1: NTS @ A3
NAT. GRID REF:
324045
366705

PRELIMINARY	APPROVAL	CONSTRUCTION
AMENDMENTS:		DATE

Ffordd Eldon
Soughton
Prohibition of Motor Vehicles
(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER HT/21/FES 201 C1